# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH DYDD MAWRTH 24AIN EBRILL 2018 AM 5.30 PM.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd W. David – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Andrews, P.J. Bevan, A. Collis, S.Cook, D.Havard, Mrs B. Miles, Mrs T. Parry, J.E. Roberts, R. Saralis a R. Whiting

Mrs P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad).

Ar y cyd gyda:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Gwasanaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac ADY), S. Mutch (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar), B. Cox (Prif Seicolegydd Addysg Dros Dro), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro), a C. Evans (Swyddog Craffu Dros Dro).

Mr C. Lewis (Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Gyfun Coed Duon) a Mrs V. Jenkins-Delf (Pennaeth, Ysgol Fabanod Bedwas)

Hefyd yn Bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr R.Morgan (Rhiant Lywodraethwr), Mrs P.J. Ireland (Undeb Cenedlaethol yr Athrawon), M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archdiocesaidd Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr J. Bevan, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, Mrs G.D. Oliver, Mr M. Barry (Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr), Mrs J. Havard (Undeb Cenedlaethol yr Athrawon) a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili )

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. COFNODION - 26AIN CHWEFROR 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar y 26ain Chwefror 2018 (rhifau cofnodion 1-11) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan

y Cadeirydd.

## 4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Philippa Marsden, y Pwyllgor at ei chylchlythyr, a ddosbarthwyd yn gynharach yn yr wythnos.

Cyfeiriwyd yr aelodau at rifyn cyntaf y cylchlythyr a gofynnwyd iddynt nodi'r cynnwys, a oedd yn cynnwys diweddariad ar Ddigwyddiad Hyfforddiant E-Bugs, a drefnwyd gan y Tîm Ysgolion Iach i hyrwyddo Adnoddau E-Bugs Iechyd Cyhoeddus Cymru a chodi ymwybyddiaeth i ddisgyblion am hylendid.

Nododd y Pwyllgor lwyddiannau'r Gwasanaethau Cerddoriaeth yn ogystal â Dathliadau Diwrnod Syndrom Down y Byd, a ddathlwyd gan staff a disgyblion yn Ysgol Uwchradd Islwyn ym mis Mawrth. Cyfeiriodd y cylchlythyr at waith digwyddiad Crucial Crew, a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Coed Duon i hyrwyddo a chyflwyno sgiliau bywyd pwysig oddi wrth Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Tân ac Achub De Cymru, Ymddiriedolaeth Cŵn, Adran Ailgylchu a'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Darparwyd manylion ar y rhestr o gyflawniadau a oedd yn cynnwys Caerffili yn un o 3 awdurdod lleol yng Nghymru i gael Ysgol Arbennig sydd wedi ennil yr Wobr Ansawdd Genedlaethol ar gyfer Ysgolion Iach, roedd Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili yn 4ydd allan o 22 o wasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru, yn dilyn y cyflawniad o'r Hawliau Craidd a chydnabuwyd Caerffil fel yr awdurdod perfformio gorau ar gyfer Addysg Oedolion o fewn Partneriaeth Gwent. Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o nodi cynhwysiad a fformat presenoldeb ysgol a data cymharol rhwng Caerffili a Chymru ers 2016/17.

Diolchodd yr Aelodau i'r Aelod Cabinet am y Cylchlythyr a chymeradwywyd y lefel gwybodaeth a dyfeisgarwch y ddogfen.

## 6. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro'r adroddiad a oedd yn amlinellu Blaenraglen Waith Ddrafft y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes o fis Ebrill 2018 hyd at fis Gorffennaf 2018.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi na fu unrhyw newidiadau i'r Flaenraglen Waith; fodd bynnag, atgoffwyd y Pwyllgor bod Gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer y 18fed o Fehefin 2018, am 5pm, lle bydd Aelodau'n cael cyfle i ystyried adroddiadau yn symud ymlaen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo a chyhoeddi'r rhaglen.

## 7. ADRODDIADAU'R CABINET

Ni chafodd adroddiadau'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

8. **HYSBYSIAD O GYNNIG - FYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI YN CYFLWYNO CEFNOGAETH HYLENDID MENYWOD AR GYFER MENYWOD IFANC O FEWN SEFYDLIADAU YSGOL.**

Ceisiodd yr adroddiad ystyriaeth y Pwyllgor am yr Hysbysiad o Gynnig bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ychwanegu ei gefnogaeth at gyflwyno cefnogaeth hylendid benywaidd am ddim i bob menyw ifanc o fewn lleoliadau ysgol, a gwneud argymhelliad i'r Cabinet.

Derbyniwyd Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd E. Forehead, gyda chefnogaeth y Cynghorydd J. Pritchard, sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac, yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, ei gyfeirio i'w hystyried.

Nododd y Pwyllgor ei fod yn cael ei dderbyn yn eang na all menywod a merched yng Nghymru fforddio prynu cynhyrchion hylendid benywaidd hanfodol pan fydd eu hangen arnynt. Ym mis Mawrth 2018, derbyniodd yr Awdurdod daliad grant dewisol untro o Lywodraeth Cymru o £41,657 i'w wario mewn perthynas â'r buddsoddiad i wella cyfleusterau toiledau a chaledwedd hylendid benywaidd mewn ysgolion. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid grant refeniw ar gael o £13,206 ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20. Rhaid defnyddio'r arian hwn i ddarparu cynhyrchion hylendid benywaidd i'r menywod a'r merched hynny sy'n fwyaf anghenus yn yr Awdurdod.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod 4,774 o ferched mewn Ysgolion Uwchradd (Blynyddoedd 7 i 11) yn ôl y data disgyblion diweddaraf. O ran y data hyn yn unig, amcangyfrifir y byddai'r gost o ddarparu cynhyrchion hylendid benywaidd i bawb oddeutu £100 mil. Mae hyn yn seiliedig ar gost fisol o £2 fesul disgybl.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu ystyried argymhellion i greu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen, y bwriedir iddo ystyried dyraniad gwariant mewn perthynas â Grant Llywodraeth Cymru, ynghyd ag opsiynau yn symud ymlaen.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a gofynnwyd am eglurhad gan Swyddogion a oedd elusennau neu gefnogaeth gan Fusnesau Lleol wedi cael eu hystyried i leihau'r baich ariannol ar yr Awdurdod. Esboniodd y swyddogion, ers ysgrifennu'r adroddiad, fod Sefydliadau Elusennol yn darparu cymorth tebyg ac mae rhai cynlluniau yn gweithredu o fewn ysgolion, fodd bynnag, nid yw'n glir ynghylch cynaladwyedd y ddarpariaeth hon ac mae'n hollbwysig, pa bynnag beth a gytunir, ei bod yn gynaliadwy ac yn gyson ar draws yr Awdurdod. Atgoffwyd yr aelodau bod argymhelliad i sefydlu gweithgor wedi cael ei awgrymu yn yr adroddiad, y byddai ei gylch gorchwyl yn ystyried yr holl wasanaethau a dewisiadau ariannol cyfredol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD bod y Hysbysiad o Gynnig yn ategu'r rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion a dylid argymell i'r Cabinet y dylid sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen.

**9. CEFNOGAETH IECHYD MEDDWL AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC**

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r heriau a wynebir gan blant a phobl ifanc, a'r datblygiadau ar gyfer diwallu anghenion lles emosiynol plant a phobl ifanc ac anghenion iechyd meddwl.

Nododd y Pwyllgor fod lles yn flaenoriaeth yn genedlaethol ac yn lleol ac yn nodwedd flaenoriaethol o fewn y gyfarwyddiaeth. Mae timau cynhwysiant yn darparu cyngor a chymorth uniongyrchol i ysgolion, yn darparu gwaith unigol i gefnogi plant a phobl ifanc a darparu hyfforddiant a chefnogaeth i adeiladu gallu mewn ysgolion a darpariaethau amgen mewn perthynas â lles.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg (GSA) yn ymwneud â gwaith strategol i ddatblygu arweiniad a cheisio barn plant a phobl ifanc. Mae casglu data mewn perthynas â grwpiau bregus yn cael ei ddatblygu ymhellach ac mae fframwaith ar gyfer lles yn cael ei ddatblygu gan yr GSA.

Nodwyd bod Swyddogion yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) a phartneriaid mewn perthynas â'r strategaeth lles. Bwriedir i waith datblygu barhau i gefnogi gallu adeiladu mewn ysgolion a darpariaeth addysgol. Roedd goblygiadau ariannol a nodwyd yn fanwl yn yr adroddiad.

Croesawodd y Pwyllgor Mr C. Lewis, Pennaeth Cynorthwyol - Ysgol Gyfun Coed Duon.

Rhoddodd Mr Lewis gyflwyniad i'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaed yn Ysgol Gyfun Coed Duon, er mwyn hyrwyddo Lles ac Iechyd Meddwl. Nodwyd bod nifer o faterion yn effeithio ar les ac iechyd meddwl pobl ifanc, sy'n cynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol a'r ffocws ar arholiadau a thargedau wedi'u gyrru gan ganlyniadau

Mae Ysgol Gyfun Coed Duon yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion trwy Gynghorydd, fodd bynnag, gyda'r angen cynyddol am gefnogaeth, mae darpariaethau ychwanegol ac amgen yn cael eu hystyried.

Nododd y Pwyllgor fod nod Ymwybyddiaeth Ofalgar yw canolbwyntio'r meddwl ar y presennol trwy ymarfer myfyrdod. Mae rhai o'r staff wedi cymryd rhan mewn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ofalgar, er mwyn eu paratoi gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i gyflwyno'r cwrs i ddisgyblion o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, nodwyd, yn dilyn yr hyfforddiant, bod tystiolaeth o welliant mewn hwyliau, lles a lleihad yn lefelau straen yr aelodau staff hynny sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant.

Esboniodd Mr Lewis fod 2 aelod o staff yn yr ysgol sydd wedi'u hyfforddi i gyflwyno'r cwrs i bobl ifanc. Rhagwelir y bydd Ymwybyddiaeth Ofalgar yn cael ei hamserlennu ar ddechrau'r Flwyddyn Academaidd newydd a bydd gwaith yn cael ei wneud i nodi disgyblion a fyddai'n elwa o'r hyfforddiant. Cydnabuwyd, er na fydd yr hyfforddiant hwn yn addas ar gyfer pob disgybl sy'n dangos problemau gyda straen, pryder a materion iechyd meddwl eraill, mae'n un o'r dulliau y bydd yr ysgol yn eu hyrwyddo er mwyn helpu i liniaru'r effaith ar ddisgyblion a gwella'r lles cyffredinol yr ysgol.

Diolchodd y Pwyllgor i Mr Lewis am y cyflwyniad a'r drafodaeth a ddilynwyd.

Gofynnodd Aelod sut y byddai'r staff yn adnabod pa ddisgyblion fyddai'n cymryd rhan yn y cwrs. Nodwyd y bydd y disgyblion yn aml yn nodi eu hunain, oherwydd eu hanghenion emosiynol, efallai y byddant yn cyflwyno eu hunain i'r staff drwy geisio cymorth neu gellir gweld newid nodedig yn eu hymddygiad. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi na fyddai Ymwybyddiaeth Ofalgar yn addas i'r holl ddisgyblion, ac yn aml byddai gofyn i gwrdd â'r disgybl a'r rhieni ac ystyried ffyrdd gwahanol er mwyn darparu'r gefnogaeth gywir i'r unigolyn.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y cwrs Ymwybyddiaeth Ofalgar arfaethedig a amserlenwyd, mewn perthynas â chynhwysedd, hyd y cwrs a'r amserlennu. Nodwyd, yn dibynnu ar nifer y staff a hyfforddwyd i ddarparu'r cwrs, y gallai pob aelod o staff ddarparu'r cwrs i ddim mwy na 20 disgybl dros gyfnod o 8 wythnos. Y gobaith yw, wrth ystyried amserlenni'r staff, y gellir cyflwyno'r cwrs fel rhan o'r cwricwlwm yn hytrach na gweithgaredd allgyrsiol.

Diolchodd y Pwyllgor i Mr Lewis am ei gyflwyniad a chroesawodd Mrs V.Jenkins-Delf, Pennaeth - Ysgol Fabanod Bedwas i'r Pwyllgor.

Eglurodd Mrs Jenkins-Delf fod lles y staff a'r disgyblion yn ei hysgol yn hollbwysig ac roedd yr ysgol wedi gweithredu'r Rhaglen Thrive yn ddiweddar, sef rhaglen hyfforddi sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n addysgu pobl y sgiliau a'r adnoddau i oresgyn materion iechyd meddwl a dysgu er mwyn ffynnu.

Gweithredwyd y rhaglen o ganlyniad i rai materion yn y feithrinfa lle'r oedd plant yn cyflwyno rhai ymddygiadau heriol ac ymosodol iawn, megis mynegiant trwy ddicter ac roeddent yn agos at gael eu heithrio. O ganlyniad i'r Rhaglen Thrive, mae arfer yn yr ysgol wedi newid ac roedd y staff yn gallu ymdopi gyda blwyddyn academaidd heriol.

Nododd y Pwyllgor fod y rhaglen yn gallu rhoi sgiliau ac adnoddau i staff i ymdrin â sefyllfaoedd mewn ffyrdd mwy cadarnhaol a lliniaru'r effaith ar y disgyblion a'r ysgol.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Pennaeth am y cyflwyniad ac roeddent yn falch o nodi'r dulliau rhagweithiol a fabwysiadwyd gan ysgolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am y Rhaglen Thrive a sut mae'n gweithio. Gwahoddodd y Pennaeth yr Aelodau i ymweld â'r ysgol i weld y ffordd y gweithredwyd y rhaglen. Nodwyd bod y rhaglen wedi galluogi staff i ymateb i sefyllfaoedd yn wahanol, i fod yn fwy goddefgar ac yn ystyriol o'i gilydd ac mae tystiolaeth gadarnhaol o'r oblygiadau a'r manteision i'r teuluoedd.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Pennaeth am ei chyflwyniad.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn estynedig ac roeddent yn falch o nodi'r gwaith helaeth a'r gefnogaeth sydd ar waith i ysgolion ynghylch ymyriadau ataliol a rhagweithiol.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynglŷn â Gweithredu Adferol a nodwyd bod rhaglenni ar waith mewn rhai ysgolion, megis Thrive, sy'n dangos effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd dysgu, lles a lleihad mewn gwaharddiadau. Sicrhawyd yr Aelodau bod pob un o'r rhaglenni'n seiliedig ar dystiolaeth a'u profi cyn eu gweithredu yn yr ysgolion.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddogion am yr adroddiadau manwl a'r cyflwyniadau a nododd ei gynnwys a'r defnydd o swm a gytunwyd yn flaenorol gan y Cabinet ar 31ain Ionawr 2018.

## 10. GWEITHREDU'R CYNNIG GOFAL PLANT I GYMRU

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y chwe mis cyntaf o weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn y cyntaf o'r ardaloedd cymunedol lles ac roedd yn bwriadu ei gyflwyno'n llawn ar draws y fwrdeistref o fis Ebrill 2018.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai gofal plant yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru a bod datblygu cynnig gofal plant gwell yn flaenoriaeth. Mae cefnogi teuluoedd gyda gofal plant hyblyg a fforddiadwy o ansawdd uchel yn cefnogi adfywio economaidd, gall leihau'r pwysau ar incwm y teulu a helpu rhieni i gymryd rhan mewn gwaith, gan leihau risg y teulu o dlodi. Mae hefyd yn cefnogi lles plant drwy brofiadau cadarnhaol a gofal plant cyfoethog.

Lansiodd Llywodraeth Cymru eu maniffesto Cynnig Gofal Plant newydd ar gyfer rhieni sy'n gweithio plant a sydd gyda phlant 3 a 4 oed mewn Addysg Cyfnod Sylfaen rhan amser yn 2016. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir yr wythnos ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd gyda phlant 3 a 4 oed mewn darpariaeth ran-amser, am 48 wythnos y flwyddyn erbyn diwedd eu tymor yn Llywodraeth 2020/2021.

Ymunodd Caerffili â'r Gweithredwyr Cynnar ar gyfer Cyfnod 1 Cynnig Gofal Plant ym mis Mawrth 2017 gyda gweithredu'r lleoedd gofal plant a ariannwyd gyntaf ym mis Medi 2017.

Dwyrain y Cymoedd Canol oedd yr ardal gyntaf i ddechrau'r Cynnig Gofal Plant a gafodd ei rolio i gynnwys Cwm Sirhywi Isaf a Basn Caerffili ym mis Ionawr 2018 a bydd nawr hefyd yn cynnwys y 2 ardal olaf ar ddechrau tymor yr haf 2018.

Yn y tymor cyntaf, derbyniwyd 98 o geisiadau am 95 o leoedd cymwys a gymeradwywyd, gyda 79 o blant o deuluoedd yn derbyn y ddarpariaeth a ariennir. Ar 26ain Mawrth 2018, derbyniwyd 510 o geisiadau i gyd gyda 468 wedi'u cymeradwyo a'u cadarnhau fel rhai sy'n gymwys gyda'r costau yn codi o £17,759.25 y mis ym mis Medi i £78,583.50 y mis ym mis Chwefror 2018. Telir yr arian hwn yn uniongyrchol i'r sector gofal plant, sef sefydliadau'r sector wirfoddol yn bennaf i wrthbwyso costau gofal plant i deuluoedd sy'n gweithio.

Mae'r clip fideo Cynnig Gofal Plant wedi helpu teuluoedd i ddeall y broses ar gyfer gwneud cais am gyllid Cynnig Gofal Plant ac fe'i welwyd sawl gwaith ar gyfryngau cymdeithasol. Fe'i defnyddir ar y cyd â thaflenni a deunyddiau marchnata eraill i sicrhau bod cymaint o rieni cymwys yn cael eu cyrraedd â phosib.

Yn Newsline Ebrill 2018, esboniodd teulu effaith yr Offer Cynnal Plant ar eu hamgylchiadau personol.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Nododd yr Aelodau'r cynnydd mewn ceisiadau a gofynnwyd am wybodaeth ynghylch sut y rheolir hyn o fewn y tîm. Esboniodd swyddogion fod systemau ar waith i brosesu'r ceisiadau o fewn yr amserlenni gofynnol a gwnaed gwaith helaeth gyda darparwyr Gofal Plant er mwyn sicrhau bod anfonebau ac ati yn cael eu darparu mewn modd amserol.

Gofynnodd Aelod, wrth nodi bod y Cynnig Gofal Plant yn anelu at leihau tlodi, am y meini prawf cymhwysedd o ran enillion. Esboniodd swyddogion fod y cynllun wedi'i anelu at rieni sy'n gweithio 16+ awr yr wythnos ac nad ydynt yn ennill mwy na £100mil. Hyd yn hyn, derbyniwyd ceisiadau gan y teuluoedd y mae'r cynllun wedi'i dargedu; ni fu unrhyw geisiadau gan deuluoedd sy'n ennill mwy o arian.

Trafododd yr Aelodau ddyraniad Gofal Plant a nodwyd bod ystod eang o ddarparwyr wedi ymuno â'r cynllun, gan gynnwys gwarchodwyr plant sy'n gallu ymdrin â rhai patrymau sifft, yn ogystal â meithrinfeydd dydd preifat. Nid yw'r cyllid yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth ei hun, ond i'r plentyn, felly, pe bai rhieni'n dymuno defnyddio'r ddarpariaeth y tu allan i'r fwrdeistref, gellid ystyried hyn.

Trafododd y Pwyllgor y broses ymgeisio a nodwyd bod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd gyda chaffael i ddod o hyd i system ymgeisio ar-lein, a gobeithir y byddai hyn ar waith ar gyfer derbyniad mis Medi.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a nododd ei gynnwys a'i weithredu hyd yn hyn.

Cyn cau'r cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, y Cynghorydd W. David mai hwn fyddai ei gyfarfod diwethaf fel Cadeirydd a diolchodd i'r Pwyllgor am eu cefnogaeth, brwdfrydedd a chraffu rhagorol yn ystod ei dymor yn y Gadair.

Terfynwyd y cyfarfod am 7.25pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau agytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 22ain Mai 2018 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

____________________________

CADEIRYDD